POLISI A STRATEGAETH, DOGFENNU

Capasiti'r rhwydwaith (cynllun rheoli draenio a gwastraff dŵr): cynllun gweithredu

Datblygwyd Cynllun Rheoli Draenio a Gwastraff Dŵr (DWMP) a bydd cwmnïau dŵr yn ymgynghori arno gyda chwsmeriaid, rhanddeiliaid, rheoleiddwyr ac awdurdodau lleol.

Cyhoeddwyd gyntaf: 5 Gorffennaf 2022

Diweddarwyd ddiwethaf: 24 Hydref 2023

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://www.llyw.cymru/capasitir-rhwydwaith-cynllun-rheoli-draenio-gwastraff-dwr-cynllun-gweithredu-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Cynnwys

Trosolwg

Ein hymrwymiadau

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://www.llyw.cymru/capasitir-rhwydwaith-cynllun-rheoli-draenio-gwastraff-dwr-cynllun-gweithredu-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Trosolwg

Er mwyn deall maint y gwelliant sydd ei angen, mae angen i ni asesu capasiti'r rhwydweithiau draenio a charthffosiaeth yn yr hir dymor.

Mae Cynllun Rheoli Draenio a Gwastraff Dŵr wedi'i ddatblygu er mwyn gwneud hyn, a bydd cwmnïau dŵr yn ymgynghori arno gyda chwsmeriaid, rhanddeiliaid, rheoleiddwyr ac awdurdodau lleol.

Bydd y Cynllun Rheoli Draenio a Gwastraff Dŵr yn gynhwysfawr, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn dryloyw wrth asesu, cyn belled ag y bo modd, y capasiti presennol a'r camau gweithredu sydd eu hangen mewn cyfnodau 5 mlynedd, 10 mlynedd a 25 mlynedd, gan ystyried risgiau a materion megis newid yn yr hinsawdd. Bydd yn cyd-fynd, cyn belled ag y bo modd, â chynlluniau a pholisïau strategol eraill. Bydd yn anelu at ddarparu rhwydweithiau draenio a charthffosiaeth gwydn sy'n ateb y galw gweithredol yn ogystal â phwysau eraill ac sy'n lleihau methiannau'r system.

Wrth ddatblygu'r cynllun, ystyrir effaith systemau draenio ar yr amgylchedd yn uniongyrchol ac yn ehangach gan gynnwys cynefinoedd, ac wrth i ni ddatblygu atebion byddwn yn ystyried cynnydd a gwelliannau amgylcheddol net.

Bydd y Cynllun Rheoli Draenio a Gwastraff Dŵr yn gydweithredol ac yn cydnabod pwysigrwydd sectorau'n cydweithio i ymateb i risgiau i ansawdd dŵr a gwasanaeth cwsmeriaid nawr ac i'r dyfodol yn ogystal â'r angen i ddarparu atebion effeithiol, gan nodi sut y byddant yn gwneud hyn, a sut y mae rhanddeiliaid wedi ymgysylltu ac ymateb iddynt. Bydd y cynllun yn gwella canlyniadau i gwsmeriaid ac yn codi ymwybyddiaeth o'r atebion angenrheidiol i ddiogelu'r amgylchedd, yn ogystal â dealltwriaeth y bydd y camau gweithredu yn cynnig gwerth am arian a buddion i'r gymdeithas gyfan.

Dylai'r cynllun ddangos arweiniad gan ystyried capasiti gweithredol pob

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://www.llyw.cymru/capasitir-rhwydwaith-cynllun-rheoli-draenio-gwastraff-dwr-cynllun-gweithredu-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

sefydliad i ddatblygu a chyflawni'r cynllun a bod yn ymwybodol o gysylltiadau â fframweithiau cynllunio strategol eraill. Yn olaf, caiff y cynllun ei ddatblygu yn unol â'r ymddygiadau a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a bydd yn egluro sut y bydd yn cyfrannu at y canlyniadau llesiant. Bydd Cynlluniau Rheoli Draenio a Gwastraff Dŵr hefyd yn helpu cwmnïau dŵr a'u rhanddeiliaid i gyflawni eu rhwymedigaethau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Gan ddibynnu ar yr ymateb i'r ymgynghoriad, canlyniad y Cynllun Rheoli Draenio a Gwastraff Dŵr fydd creu cynllun a fydd yn rhoi gorlifoedd storm yn yr ardaloedd a wasanaethir gan Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy ar drywydd gwell dealltwriaeth o'u heffaith, gyda'r nod o ddileu niwed ecolegol i'r amgylchedd.

Bydd y canlyniadau tymor byr yn canolbwyntio ar wella dealltwriaeth, dulliau cefnogi penderfyniadau a datblygu llwybr addasol i ddangos sut y gallai'r cynllun newid dros amser - mewn ymateb i heriau twf, newid yn yr hinsawdd, ehangu trefol a newidiadau mewn rheoleiddio. Yn ddibynnol ar ymatebion rhanddeiliaid a chwsmeriaid i'r ymgynghoriad, bydd y cynllun yn cynnwys cynigion buddsoddi ar gyfer lleihau gollyngiadau o orlifoedd storm yn AMP8, pennu'r amserlenni ar gyfer sicrhau lleihad yng ngollyngiadau'r gorlifoedd storm, ynghyd â lleihau'r perygl o lifogydd, a nodi ardaloedd lle mae Awdurdodau Rheoli Risg yn hanfodol i gyflawni'r canlyniadau hyn.

Ein hymrwymiadau

Mae'r camau sy'n cael eu cymryd o fewn y ffrwd waith hon yn cyd-fynd â Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru 2021-26 a'r nodau'r canlynol:

- Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth i ni wneud y cynnydd mwyaf posibl tuag at ddatgarboneiddio.
- Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell i fyw a gweithio ynddynt.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://www.llyw.cymru/capasitir-rhwydwaith-cynllun-rheoli-draenio-gwastraff-dwr-cynllun-gweithredu-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn.
- Dechrau dynodi dyfroedd mewndirol Cymru ar gyfer hamdden, gan gryfhau'r gwaith o fonitro ansawdd dŵr.

Sefydliad Arweiniol	Gweithred	Pam?	Erbyn Pryd	Diweddariad Hydref 2023
Dŵr Cymru	Ymgynghori ar y Cynllun Rheoli Draenio a Gwastraff Dŵr drafft, paratoi cynllun drafft diwygiedig a datganiad o ymateb i'r ymgynghoriad.	Casglu barn cwsmeriaid a rhanddeiliaid ar y Cynllun Rheoli Draenio a Gwastraff Dŵr drafft ac adlewyrchu'r rhain yn y cynllun drafft terfynol.	Rhagfyr 2023	Mae Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff (DWMP) wedi'i anfon i OFWAT a bydd yn cael ei rannu gyda rhanddeiliaid ehangach erbyn diwedd mis Rhagfyr 2023.
Dŵr Cymru	Dechrau ar ail gylch y Cynllun Rheoli Draenio a Gwastraff Dŵr.	Dechrau'r broses o ddiweddaru'r Cynllun Rheoli Draenio a Gwastraff Dŵr ac ehangu ei gwmpas a'i gywirdeb. Bydd hyn yn caniatáu i gwmnïau dŵr wella eu dealltwriaeth o effeithiau gorlifoedd storm ar yr amgylchedd a'u galluogi i ddatblygu cynlluniau	Rhagfyr 2023 gyda'r bwriad o gyhoeddi'r ail gynllun drafft yn 2027	I'w gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2023.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://www.llyw.cymru/capasitir-rhwydwaith-cynllun-rheoli-draenio-gwastraff-dwr-cynllun-gweithredu-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Sefydliad Arweiniol	Gweithred	Pam?	Erbyn Pryd	Diweddariad Hydref 2023
		buddsoddi ar raddfa ehangach i'w cynnwys yn AMP9 a thu hwnt. Nod hyn fydd dileu niwed ecolegol o ganlyniad i orlifoedd storm cyn gynted â phosibl a sicrhau bod y gwelliannau hynny'n gallu gwrthsefyll pwysau megis newid yn yr hinsawdd.		
Dŵr Cymru	Mabwysiadu arfer gorau.	Er mwyn nodi mesurau arfer da yn Lloegr a'r Alban y gellir eu mabwysiadu yng Nghymru a chynllunio i'w cyflwyno drwy gydol ail gylch y Cynllun Rheoli Draenio a Gwastraff Dŵr.	Parhaus	Dŵr Cymru yn cyd-gadeirio pwyllgor ymchwil ac arloesi aml-lywodraeth / rheoleiddiwr y Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff. Pob cam i ysgogi arferion gorau'r diwydiant a gwelliannau methodoleg ar y cyd.
Dŵr Cymru and Hafren Dyfrdwy	Cyfathrebu ynglŷn â'r Cynllun Rheoli Draenio a Gwastraff Dŵr.	Darparu cyfres o negeseuon clir am y Cynllun Rheoli Draenio a Gwastraff Dŵr (beth yw'r cynllun a beth yw ei	Cyd-fynd â'r amserlen ymgynghori a chyhoeddi	Bydd cyhoeddiadau ar gyfer Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff Terfynol yn cynnwys dogfennau technegol a chyfeillgar

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://www.llyw.cymru/capasitir-rhwydwaith-cynllun-rheoli-draenio-gwastraff-dwr-cynllun-gweithredu-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Sefydliad Arweiniol	Gweithred	Pam?	Erbyn Pryd	Diweddariad Hydref 2023
		fwriad) i'r ffrwd gwaith Cyfathrebu. Esbonio cysylltiad a rôl y broses gynllunio busnes, blaenoriaethu buddsoddiad a'r effaith bosibl ar fforddiadwyedd i gwsmeriaid.		i gwsmeriaid. Byddant yn egluro sut mae'r Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff yn cyd-fynd â'r prosesau Cynllunio Busnes a buddsoddi.
Hafren Dyfrdwy	Dechrau ar ail gylch y Cynllun Rheoli Draenio a Gwastraff Dŵr.	Dechrau'r broses o ddiweddaru'r Cynllun Rheoli Draenio a Gwastraff Dŵr ac ehangu ei gwmpas a'i gywirdeb. Bydd hyn yn caniatáu i gwmnïau dŵr wella eu dealltwriaeth o effeithiau gorlifoedd storm ar yr amgylchedd a'u galluogi i ddatblygu cynlluniau buddsoddi ar raddfa ehangach i'w cynnwys yn AMP9 a thu hwnt. Nod hyn fydd dileu niwed ecolegol o ganlyniad i orlifoedd storm cyn	Gwanwyn 2023 gyda'r bwriad o gyhoeddi'r ail gynllun drafft yn 2027	Paratoadau yn parhau.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://www.llyw.cymru/capasitir-rhwydwaith-cynllun-rheoli-draenio-gwastraff-dwr-cynllun-gweithredu-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Sefydliad Arweiniol	Gweithred	Pam?	Erbyn Pryd	Diweddariad Hydref 2023
		gynted â phosibl a sicrhau bod y gwelliannau hynny'n gallu gwrthsefyll pwysau megis newid yn yr hinsawdd.		
Hafren Dyfrdwy	Ymgorffori gwelliannau i orlifoedd storm a nodwyd yn y Cynllun Rheoli Draenio a Gwastraff Dŵr yn gynlluniau busnes drafft PR24 ar gyfer buddsoddi yn AMP8.	Darparu cyllid buddsoddi i wneud gwelliannau i orlifoedd storm yng nghynlluniau busnes AMP8.	Cwblhawyd	Mae ein buddsoddiad gwelliannau AMP8 yn canolbwyntio ar leihau ffosffad yn ein gweithfeydd trin carthffosiaeth, gan mai dyma ein heffaith fwyaf o ran rheswm dros beidio â chyflawni statws da (RNAG). Lle mae ein hasesiadau gorlifoedd storm cyfun AMP7 parhaus yn nodi 'enillion cyflym' i leihau gollyngiadau (e.e., gwell cyfundrefnau cynnal a chadw, ymgyrchoedd addysg 'stopio'r bloc' ac ati), bydd y rhain yn cael eu gwneud cyn gynted â phosibl. Bydd asedau gorlifoedd storm cyfun

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://www.llyw.cymru/capasitir-rhwydwaith-cynllun-rheoli-draenio-gwastraff-dwr-cynllun-gweithredu-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Sefydliad Arweiniol	Gweithred	Pam?	Erbyn Pryd	Diweddariad Hydref 2023
				mwy cymhleth yn cael eu harchwilio yn AMP8.
Llywodraeth Cymru	Datblygu canllawiau rheoleiddio ar gyfer y Cynllun Rheoli Draenio a Gwastraff Dŵr.	I ddatblygu'r gofynion deddfwriaethol ar gyfer y Cynllun Rheoli Draenio a Gwastraff Dŵr gan gynnwys dyletswyddau Cwmnïau Dŵr, Rheoleiddwyr ac Awdurdodau Lleol er mwyn gwneud y Cynllun Rheoli Draenio a Gwastraff Dŵr yn ofyniad statudol i gwmnïau dŵr.	Hydref 2024	Ar y gweill.
Llywodraeth Cymru	Adolygiad rheoli draenio.	Er mwyn gallu adolygu'r angen am strwythur rheoli newydd ar gyfer carthffosiaeth a draenio yng Nghymru a darparu cynigion a fydd yn hwyluso buddsoddiad cyd-gysylltiedig rhwng	Diwedd 2024	Ar y gweill.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://www.llyw.cymru/capasitir-rhwydwaith-cynllun-rheoli-draenio-gwastraff-dwr-cynllun-gweithredu-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Sefydliad Arweiniol	Gweithred	Pam?	Erbyn Pryd	Diweddariad Hydref 2023
		gweithredwyr draenio a charthffosiaeth yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys yr angen i gwmnïau dŵr, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdodau Lleol rannu gwybodaeth am asedau a datblygu eu meysydd o ddiddordeb cyffredin.		
Dŵr Cymru	Ymgorffori gwelliannau i orlifoedd storm a nodwyd yn y Cynllun Rheoli Draenio a Gwastraff Dŵr yn gynlluniau busnes drafft PR24 ar gyfer buddsoddi yn AMP8.	Darparu cyllid buddsoddi i wneud gwelliannau i orlifoedd storm yng nghynlluniau busnes AMP8.	Cwblhawyd	Mae cynllun AMP8 wedi'i gyflwyno i OFWAT, gyda buddsoddiad o dros £500M ar wella gorlifoedd stormydd.
Dŵr Cymru	Prosiect tystiolaeth gorlifoedd storm.	Er mwyn cefnogi'r nodau ar gyfer Prosiect Tystiolaeth Gorlifoedd Storm	Cwblhawyd	Mae'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani wedi'i darparu.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://www.llyw.cymru/capasitir-rhwydwaith-cynllun-rheoli-draenio-gwastraff-dwr-cynllun-gweithredu-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Sefydliad Arweiniol	Gweithred	Pam?	Erbyn Pryd	Diweddariad Hydref 2023
		Cymru a darparu'r wybodaeth ofynnol os mae'r wybodaeth ar gael.		
Hafren Dyfrdwy	Ymgynghori ar y Cynllun Rheoli Draenio a Gwastraff Dŵr drafft, paratoi cynllun drafft diwygiedig a datganiad o ymateb i'r ymgynghoriad.	Casglu barn cwsmeriaid a rhanddeiliaid ar y Cynllun Rheoli Draenio a Gwastraff Dŵr drafft ac adlewyrchu'r rhain yn y cynllun drafft terfynol.	Cwblhawyd	Ymgynghori ar y **Cynllun Rheoli Draenio a Gwastraff Dŵr drafft**
Hafren Dyfrdwy	Mabwysiadu arfer gorau.	Er mwyn nodi mesurau arfer da yn Lloegr a'r Alban y gellir eu mabwysiadu yng Nghymru a chynllunio i'w cyflwyno drwy gydol ail gylch y Cynllun Rheoli Draenio a Gwastraff Dŵr.	Cwblhawyd	Cyhoeddi **Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff cylch 1**. Bydd unrhyw arferion gorau newydd a nodwyd fel rhan o gylch 1 yn cael eu cofnodi a'u cynnwys yng nghylch 2.
Hafren Dyfrdwy	Cyfathrebu ynglŷn â'r	Darparu cyfres o negeseuon clir am y	Cwblhawyd	Wedi cyhoeddi **Cynllun Rheoli**

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://www.llyw.cymru/capasitir-rhwydwaith-cynllun-rheoli-draenio-gwastraff-dwr-cynllun-gweithredu-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Sefydliad Arweiniol	Gweithred	Pam?	Erbyn Pryd	Diweddariad Hydref 2023
	Cynllun Rheoli Draenio a Gwastraff Dŵr.	Cynllun Rheoli Draenio a Gwastraff Dŵr (beth yw'r cynllun a beth yw ei fwriad) i'r ffrwd gwaith Cyfathrebu. Esbonio cysylltiad a rôl y broses gynllunio busnes, blaenoriaethu buddsoddiad a'r effaith bosibl ar fforddiadwyedd i gwsmeriaid.		**Draenio a Dŵr Gwastraff** a chynnal gweithdai allanol adeg ei lansio.
Hafren Dyfrdwy	Prosiect tystiolaeth gorlifoedd storm.	Er mwyn cefnogi'r nodau ar gyfer Prosiect Tystiolaeth Gorlifoedd Storm Cymru a darparu'r wybodaeth ofynnol os mae'r wybodaeth ar gael.	Cwblhawyd	Wedi cyhoeddi **Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff** a chynnal gweithdai allanol adeg ei lansio.
Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdodau Lleol	Ymgysylltu â'r Cynllun Rheoli Draenio a Gwastraff Dŵr.	Mae CNC ac Awdurdodau Lleol yn ymwneud â'r Cynllun Rheoli Draenio a Gwastraff Dŵr o safbwynt gweithredwyr draenio a rheoleiddwyr fel bod	Cwblhawyd	CNC wedi adolygu a gwneud sylwadau ar ymgynghoriadau'r Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://www.llyw.cymru/capasitir-rhwydwaith-cynllun-rheoli-draenio-gwastraff-dwr-cynllun-gweithredu-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Sefydliad Arweiniol	Gweithred	Pam?	Erbyn Pryd	Diweddariad Hydref 2023
		cynlluniau cydweithredol yn cael eu datblygu i ddiogelu ansawdd dŵr afonydd ar yr un pryd â lleihau'r perygl o lifogydd		
Llywodraeth Cymru	Rhoi cyfarwyddyd i gwmnïau dŵr gyhoeddi eu Cynlluniau Rheoli Draenio a Gwastraff Dŵr.	Cadarnhau bod y cynlluniau wedi'u mabwysiadu'n ffurfiol ac y dylai cwmnïau dŵr ddechrau adrodd ar gynnydd.	Cwblhawyd	Disgwylir i'r cynlluniau gael eu cyhoeddi yn ystod hydref 2023.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/capasitir-rhwydwaith-cynllun-rheoli-draenio-gwastraff-dwr-cynllun-gweithredu-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.